# Covid-19: Llythyr i bob ysgol a lleoliad

19 Mawrth 2020

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Annwyl gydweithwyr

Ddoe fe gyhoeddodd y Gweinidog Addysg y penderfyniad i ddechrau gwyliau'r Pasg yn gynnar i ddysgwyr.

Fodd bynnag, dylai adeiladau ysgolion barhau i fod ar agor, ac fe fydd disgwyl iddynt gyflawni swyddogaeth bwysig dros yr wythnosau nesaf. Rydym yn disgwyl i Benaethiaid fod yn bresennol yn yr ysgol yr wythnos nesaf, a dylai staff ysgol barhau i weithio, gan gadw at y cyngor diweddaraf ynghylch cadw pellter cymdeithasol a hunanynysu.

Rydym yn disgwyl i Awdurdodau Lleol ddefnyddio eu pwerau i gyfarwyddo gweithgarwch mewn ysgolion a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Yn y cyfnod heriol sydd ohoni, bydd ysgolion yn dod yn rhan hanfodol o'r ymateb i her aruthrol COVID-19. Bydd ysgolion a'u staff yn elfen ganolog o'r ymdrech i gadw'r GIG i fynd, yn ogystal â gwasanaethau eraill sy'n hanfodol ar gyfer ein ffordd o fyw.

Cyn hir byddwn yn cyhoeddi cyfres o gwestiynau cyffredin ar y dudalen Addysg: Coronafeirws ar ein gwefan, ynghyd â chanllawiau allweddol. Bydd y rhain yn cael eu diweddaru yn rheolaidd.

Y blaenoriaethau yr hoffem i Awdurdodau Lleol a Phenaethiaid ganolbwyntio arnynt o ran y ddarpariaeth mewn ysgolion yw'r canlynol:

- Gosod mesurau tymor byr yn eu lle ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim er mwyn sicrhau bod modd diwallu eu hanghenion mewn ffordd hyblyg.
- Sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer dysgwyr agored i niwed.
- Adnabod plant unigolion sy'n rhan o'r ymateb uniongyrchol i'r coronafeirws a sicrhau bod darpariaeth ar gael.

Ym mhob un o'r meysydd hyn, rydym yn bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol i osod trefniadau hirdymor cadarnach yn eu lle.

Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn gyson i chi.

**Ffynonellau canllawiau cyffredinol**

Tudalen coronafeirws gwefan Llywodraeth Cymru:
https://llyw.cymru/coronafeirws

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau addysgol:
https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws

COVID-19: canllawiau teithio ar gyfer y sector addysg:
https://www.gov.uk/government/publications/guidance-to-educational-settings-about-covid-19/covid-19-travel-guidance-for-the-education-sector

Canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol:
https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-guidance-on-social-distancing-and-for-vulnerable-people/guidance-on-social-distancing-for-everyone-in-the-uk-and-protecting-older-people-and-vulnerable-adults

Gwefannau Iechyd Cyhoeddus Cymru a Public Health England
https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/
https://www.gov.uk/government/organisations/public-health-england

Dilynwch ni ar Twitter @LlC_Addysg neu www.facebook.com/addysgcymru

Tanysgrifiwch i Dysg